# CYFLWYNIAD I DDIOGELU

EGLWYS YNG NGHYMRU
2 Sgwâr Callaghan, Caerdydd, CF10 5BT

Table of Contents

**Geirfa** ..... 1
**Beth yw ystyr diogelu?** ..... 2
**Diogelu yn yr Eglwys** ..... 2
**Dyletswydd gofal** ..... 2
**Llywodraethu Diogelu** ..... 3
**Egwyddorion Diogelu** ..... 3
**Safonau diogelu** ..... 3
**Diogelu - Diffiniadau** ..... 4
**Rolau sefydliadau statudol (Awdurdod Lleol a'r Heddlu)** ..... 6
Atodiad A ..... 7
Cyfrifoldebau Tîm Diogelu'r Dalaith ..... 7
Cyfrifoldebau ..... 7
Atodiad B – Cyfrifoldebau Diogelu Esgobaethol ..... 13
Esgob Arweiniol Diogelu - Cyfrifoldebau Allweddol: ..... 13

## Geirfa

| **Acronym** | **Disgrifiad** |
|---|---|
| **DBS** | Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd |
| **EC** | Y Comisiwn Ewropeaidd |
| **TGCh** | Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu |
| **IICSA** | Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol |
| **TG** | Technoleg Gwybodaeth |
| **PTO** | Caniatâd i Weinyddu |

DRAFT

# Cyflwyniad i'r Canllawiau Diogelu

Mae'r Eglwys yng Nghymru yn hyrwyddo ac yn annog arfer mwy diogel yn y gwaith a wneir gyda phlant ac oedolion sy'n wynebu risg. Nod yr Eglwys yw creu a chynnal diwylliant sefydliadol sy'n adlewyrchu pwysigrwydd diogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg. Mae lles plant ac oedolion sy'n wynebu risg bob amser yn hollbwysig ac yn cael blaenoriaeth dros bob ystyriaeth arall. Mae diogelu yn rhan sylfaenol o'n ffydd ac yn nodwedd annatod o fywyd Cristnogol yn ein heglwysi.

## Beth yw ystyr diogelu?

Ystyr diogelu yw atal ac amddiffyn plant ac oedolion sy'n wynebu risg o gael eu cam-drin neu eu hesgeuluso ac addysgu'r rhai o'u cwmpas i adnabod yr arwyddion a'r peryglon.
Er mwyn diogelu, rhaid amddiffyn plant ac oedolion sy'n wynebu risg o gamdriniaeth a chael eu cam-drin, osgoi niwed i'w hiechyd neu eu datblygiad, sicrhau y caiff plant ofal diogel ac effeithiol wrth iddynt dyfu, a chymryd camau i alluogi pob plentyn ac oedolyn sy'n wynebu risg i gael y canlyniadau gorau.

## Diogelu yn yr Eglwys

Mae drysau'r eglwys ar agor i bawb a gall pobl droi at yr eglwys am help llaw unrhyw bryd, yn enwedig mewn argyfwng. Mae'n bwysig bod pawb yn yr Eglwys yn cael eu hyfforddi i wybod sut i weithio'n hyderus ac yn effeithiol gyda phlant ac oedolion sy'n wynebu risg. Mae angen canllawiau arbenigol, yn enwedig pan geir honiad neu amheuaeth o gamdriniaeth. Felly, mae'r Eglwys yng Nghymru yn ei gwneud yn gwbl glir bod yn rhaid i holl glerigion a swyddogion eraill yr Eglwys ddilyn cyngor gweithredol Tîm Diogelu'r Dalaith.
Er nad yw eglwysi'n cael eu rheoleiddio gan awdurdodau'r llywodraeth i'r un graddau â sefydliadau statudol, disgwylir iddynt ddilyn yr egwyddorion a'r dyletswyddau fel y nodir yng Ngweithdrefnau Diogelu Cymru. Yn ogystal, mae'r Eglwys yn atebol i'r Comisiwn Elusennau fel rhan o'r sector gwirfoddol neu'r 'trydydd sector'. Mae'r Comisiwn Elusennau yn ei gwneud yn ofynnol i bob sefydliad sy'n gweithio gyda phlant gael polisi diogelu.

Mae'r Eglwys yng Nghymru yn gosod disgwyliad clir bod pob clerig, aelod staff a gwirfoddolwr yn gyfarwydd â'r Polisi Diogelu a'r canllawiau cysylltiedig ac yn eu deall. At hynny, disgwylir iddynt ddilyn cyngor proffesiynol Swyddogion Diogelu'r Dalaith. Gall methu â gwneud hynny nid yn unig greu risg sy'n gysylltiedig â diogelu, ond gall godi amheuon hefyd ynghylch trefniadau yswiriant eglwys. Os na ddilynwyd eu cyngor, bydd y Swyddogion Diogelu'r Dalaith yn adrodd y mater i Banel Diogelu'r Dalaith. Gall y Panel ei gwneud yn ofynnol i Esgob yr Esgobaeth, y Periglor neu gyflogwr arall atal unigolyn rhag gweithio gyda phlant neu oedolion sydd mewn perygl. At hynny, bydd gan Dribiwnlys Disgyblu'r Eglwys yng Nghymru bŵer i glywed a phenderfynu ar gŵyn, pryd bynnag y mae'n codi, o fethiant i gydymffurfio â chyngor gan Banel Diogelu'r Dalaith heb esgus rhesymol.

## Dyletswydd gofal

Mae'n ddyletswydd ar unrhyw sefydliad sydd â chyswllt neu sy'n gweithio gyda phlant ac oedolion sy'n wynebu risg i ofalu bod y grwpiau penodol hyn o bobl yn cael gofal priodol ac yn cael eu diogelu. Mae'r ddyletswydd hon yn hynod bwysig i eglwysi gan fod eglwysi'n

croesawu pawb a bod disgwyl i oedolion a phlant gydweithio'n agos, megis sesiynau ysgol Sul, gofal bugeiliol, gweinidogaeth weddi a chlybiau gwyliau.

**Llywodraethu Diogelu**

Llywodraethir Diogelu yn yr Eglwys yng Nghymru gan y Pwyllgor Diogelu. Mae'r Pwyllgor hwn yn adrodd i Bwyllgor Sefydlog y Corff Llywodraethol mewn perthynas â mabwysiadu a gweithredu egwyddorion, safonau a Pholisi Diogelu'r Eglwys yng Nghymru NEW_Safeguarding_Policy_-_GB_approved_Nov_2020.pdf. Mae sawl ffrwd waith yn adrodd i'r Pwyllgor sy'n cael eu harwain a'u cyfarwyddo gan Dîm Diogelu'r Dalaith. Mae Panel Diogelu'r Dalaith yn sicrhau ansawdd gwaith y Tîm Diogelu'r Dalaith (TDT), yn enwedig ei ymateb i waith achos. Mae gan y Panel fynediad at yr holl waith achos a phrosesau i gyflawni'r swyddogaeth hon. Mae'n ffynhonnell cyngor arbenigol hefyd i gefnogi'r TDT gydag achosion cymhleth. At hynny, gall y Panel gynnig argymhellion i bob clerig ar faterion diogelu a'r ymateb gofynnol.

Mae'r Tîm yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr ar draws yr esgobaethau gyda chyfrifoldebau penodol wedi'u nodi ar gyfer rolau Diogelu'r Dalaith ac esgobaethol. Nodir y cyfrifoldebau hyn yn Atodiad A – Cyfrifoldebau Tîm Diogelu'r Dalaith ac Atodiad B – Cyfrifoldebau Diogelu Esgobaethol.

**Egwyddorion Diogelu**

Wrth gyflawni ei dyletswydd i ddiogelu ac amddiffyn plant ac oedolion sy'n wynebu risg, bydd yr Eglwys yn mabwysiadu'r egwyddorion diogelu cyffredinol canlynol.

*Mabwysiadu dull ataliol* – bod yn effro i'r posibilrwydd neu'r amheuaeth o gam-drin neu risg o gamdriniaeth neu niwed a cheisio gofal a chymorth cyn i broblem waethygu.

*Gwrando ar lais y plentyn neu'r oedolyn sy'n wynebu risg* – gwrandewch ar ddymuniadau, anghenion a lles plant ac oedolion sy'n wynebu risg.

*Rhannu gwybodaeth* – rhannwch wybodaeth briodol a mynnwch gyngor uniongyrchol er mwyn trafod unrhyw amheuon o ran diogelu.

*Gwaith amlasiantaeth* - gweithiwch gydag asiantaethau statudol a gwirfoddol mewn ffordd gydweithredol i ddiogelu a hyrwyddo lles plant ac oedolion sy'n wynebu risg

**Safonau diogelu**

Bydd yr Eglwys yng Nghymru yn defnyddio'r safonau canlynol er mwyn diogelu'n effeithiol.

*Polisi Diogelu* - mabwysiadu polisi diogelu ffurfiol sy'n gweithio.
*Datblygu Ymwybyddiaeth a Hyfforddiant Diogelu* – darparu hyfforddiant diogelu effeithiol.
*Recriwtio'n Ddiogel* - mabwysiadu polisi recriwtio mwy diogel ar gyfer gweithwyr cyflogedig a gwirfoddol.
*Rheoli Gweithwyr* – rheoli, goruchwylio a chefnogi'r holl weithwyr yn briodol.
*Gweithio'n Ddiogel* - mabwysiadu arferion gweithio diogel, cynnal asesiadau risg priodol ar gyfer gweithgareddau wedi'u trefnu.
*Cyfathrebu'n effeithiol* - gwybod sut i siarad â phlant ac oedolion sy'n wynebu risg, gwrando arnynt a chysylltu â hwy.
*Ymateb i Bryderon* - datblygu ymwybyddiaeth o gamdriniaeth a gallu adnabod arwyddion a

symptomau posibl er mwyn ymateb yn briodol.
*Gofal Bugeiliol* - sicrhau bod gofal bugeiliol a chymorth ar gael i bawb y mae camdriniaeth yn effeithio arnynt.
*Rheoli'r rhai sy'n peri risg* - goruchwylio a rheoli'r rhai sy'n peri risg i eraill.
*Gweithio mewn partneriaeth* – cydweithio i sicrhau bod gweithdrefnau, prosesau a chanllawiau diogelu priodol ar waith

## Gweithdrefnau Diogelu Cymru a Deddfwriaeth

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn darparu'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer gwella llesiant pobl sydd angen gofal a chymorth. Mae'r Ddeddf yn cynnwys 11 Rhan gyda Rhan 7 yn ymwneud yn benodol â Diogelu. Darperir canllaw hawdd ei ddilyn i'r Ddeddf gan Gofal Cymdeithasol Cymru yn https://socialcare.wales/hub/sswbact. Mae'r ddeddfwriaeth hon yn darparu'r fframwaith ar gyfer Diogelu yng Nghymru.

Yn cyd-fynd â'r Ddeddf, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau diogelu statudol Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl

Mae Gweithdrefnau Diogelu Cymru wedi'u cynllunio i alluogi cymhwyso gofynion a disgwyliadau deddfwriaethol Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Y nod yw gwella canlyniadau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i oedolion sy'n wynebu risg o gamdriniaeth ac esgeulustod a phlant sy'n wynebu risg. Mae'r Gweithdrefnau i'w gweld yn https://www.diogelu.cymru

Mae'r gweithdrefnau hefyd yn cydnabod deddfwriaeth, canllawiau a phrotocolau perthnasol eraill. Er enghraifft, Deddf Cam-drin Domestig (Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015.

## Diogelu - Diffiniadau

### Plant

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a'r canllawiau cysylltiedig yn diffinio 'plentyn' fel unigolyn dan 18 oed.

### Oedolion sy'n wynebu Risg

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn diffinio oedolyn sy'n wynebu risg fel oedolyn: - (a) sy'n cael, neu sy'n wynebu risg o gael, ei gam-drin neu ei esgeuluso; (b) y mae arno anghenion am ofal a chymorth (p'un a yw'r awdurdod yn diwallu unrhyw un neu rai o'r anghenion hynny ai peidio), ac (c) nad yw'n gallu, o ganlyniad i'r anghenion hynny, amddiffyn ei hun rhag cael, neu'r risg o gael, ei gam-drin neu ei esgeuluso.

### Plentyn sy'n wynebu Risg

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn diffinio plentyn sy'n wynebu risg fel plentyn: (a) sy'n cael, neu sy'n wynebu risg o gael, ei gam-drin neu ei esgeuluso neu ddioddef mathau eraill o niwed, a (b) y mae arno anghenion am ofal a chymorth (p'un a yw'r awdurdod yn diwallu unrhyw un neu rai o'r anghenion hynny ai peidio).

Mae'n bwysig nodi: wrth ddefnyddio'r term 'sy'n wynebu risg', nid oes angen i gamdriniaeth neu esgeulustod gwirioneddol ddigwydd, yn hytrach dylid ystyried ymyriadau cynnar i amddiffyn plentyn sy'n wynebu risg er mwyn atal niwed, camdriniaeth ac esgeulustod gwirioneddol.

Ystyr **niwed** yw:

- camdriniaeth wael sy'n cynnwys camdriniaeth gorfforol, cam-drin yn rhywiol, esgeulustod, camdriniaeth emosiynol a seicolegol, camdriniaeth ariannol.
- nam ar iechyd corfforol neu feddyliol (gan gynnwys yr hyn a ddioddefodd o weld neu glywed rhywun arall yn cael ei gam-drin).
- atal datblygiad corfforol, deallusol, emosiynol, cymdeithasol neu ymddygiadol (gan gynnwys yr hyn a ddioddefodd o weld neu glywed rhywun arall yn cael ei gam-drin).

**Niwed sylweddol**

Y trothwy ar gyfer cychwyn ymholiadau diogelu gan yr Awdurdod Lleol [ymholiadau a47 o dan Ddeddf Plant 1989] yw pan geir pryderon am niwed sylweddol tebygol neu wirioneddol i blentyn.

Nid yw niwed sylweddol wedi ei ddiffinio'n statudol felly, rhaid i ymarferwyr ystyried:

*'Mae'r cwestiwn a yw niwed yn niwed sylweddol yn dibynnu ar iechyd neu ddatblygiad y plentyn, mae iechyd neu ddatblygiad y plentyn i'w gymharu â'r hyn y gellid ei ddisgwyl yn rhesymol gan blentyn tebyg (Adran 31(9),* **Deddf Plant 1989**.)'

**Arwyddion o Gam-drin**

Cam-drin Plant - Mae Gweithdrefnau Diogelu Cymru yn rhoi enghreifftiau lawer o arwyddion o wahanol fathau o gam-drin plant. Mae'r canllawiau i'w gweld yma - https://www.diogelu.cymru/chi/cp/c1p.p2.html

Dyma rai arwyddion cyffredin y gallai fod rhywbeth amhriodol yn digwydd ym mywyd plentyn:

- newidiadau anesboniadwy mewn ymddygiad neu bersonoliaeth
- wedi mynd yn fewnblyg
- ymddangos yn bryderus
- wedi mynd yn annodweddiadol o gas
- heb sgiliau cymdeithasol ac yn brin o ffrindiau os o gwbl
- y cyswllt neu'r berthynas â'r rhiant yn wael
- yn gwybod am faterion oedolion sy'n amhriodol i'w oedran
- rhedeg i ffwrdd neu'n mynd ar goll
- bob amser yn dewis gwisgo dillad sy'n gorchuddio ei gorff.

Nid yw'r arwyddion hyn o reidrwydd yn golygu bod plentyn yn cael ei gam-drin, gallai fod pethau eraill yn digwydd yn ei fywyd sy'n effeithio ar ei ymddygiad. Hwyrach y gwelwch ymddygiad amhriodol gan oedolion y gwyddoch fod ganddynt blant yn eu gofal, sy'n eich gwneud yn bryderus am ddiogelwch a lles y plentyn/plant.

Cam-drin Oedolion - Mae Gweithdrefnau Diogelu Cymru yn rhoi enghreifftiau lawer o'r arwyddion o wahanol fathau o gam-drin oedolion. Mae'r canllawiau i'w gweld yma - https://www.diogelu.cymru/adu/ap/a1p.p2.html

**Rolau sefydliadau statudol (Awdurdod Lleol a'r Heddlu)**

Plant - Yn adran 130(4) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 gwelir diffiniad ar gyfer plentyn sy'n wynebu risg (fel yr amlinellir uchod). Mae'n nodi ymhellach, pan fydd awdurdod lleol wedi cael ei hysbysu am blentyn o dan adran 130 o Ddeddf 2014, fod yn rhaid i'r awdurdod lleol ystyried a oes sail dros gynnal ymchwiliad o dan adran 47 o Ddeddf Plant 1989. Mae adran 47 yn ei gwneud yn ofynnol, pan fo gan awdurdod lleol achos rhesymol i amau bod plentyn "yn dioddef, neu'n debygol o ddioddef, niwed sylweddol" y bydd yr awdurdod lleol yn gwneud yr ymholiadau angenrheidiol neu'n trefnu iddynt gael eu gwneud i'w alluogi i benderfynu a ddylai gymryd unrhyw gamau i ddiogelu neu i hyrwyddo lles y plentyn.

Oedolion sy'n wynebu risg – Mae Adran 126 (2) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn datgan yn Adran 126 (2) :- "Os oes gan awdurdod lleol sail resymol dros gredu bod person o fewn ei ardal (p'un a yw'n preswylio fel arfer yno ai peidio) yn oedolyn sy'n wynebu risg, rhaid iddo—(a) gwneud unrhyw ymholiadau (neu beri iddynt gael eu gwneud) y mae'n credu eu bod yn angenrheidiol i'w alluogi i benderfynu a ddylid cymryd unrhyw gamau (p'un ai o dan y Ddeddf hon neu fel arall) ac, os felly, pa gamau a chan bwy, a (b) penderfynu a ddylid cymryd unrhyw gamau o'r fath."

Pa bryd y dylai'r Heddlu gael eu hysbysu am amheuon ynghylch diogelu:
Mae Gweithdrefnau Diogelu Cymru yn esbonio - Os oes gan aelod o'r cyhoedd neu ymarferydd achos rhesymol i amau bod plentyn, gan gynnwys plentyn heb ei eni, yn wynebu risg, rhaid hysbysu'r awdurdod lleol cyn gynted â phosibl. Fodd bynnag, os oes pryderon dybryd am ddiogelwch plentyn neu drosedd yn erbyn plentyn, rhaid iddynt gysylltu â'r gwasanaethau brys yn ddi-oed i amddiffyn y plentyn/plant rhag y perygl o niwed difrifol.

## Atodiad A
## Cyfrifoldebau Tîm Diogelu’r Dalaith

### Cyfarwyddwr Diogelu

<u>Cyfrifoldebau</u>

- Goruchwylio gwaith Tîm Diogelu’r Dalaith
- Sicrhau y gwneir trefniadau priodol i gefnogi a gwrando ar oroeswyr camdriniaeth
- Sicrhau bod y polisi diogelu, y gweithdrefnau a'r protocolau gweithredu yn cael eu hadolygu a'u diweddaru'n rheolaidd i adlewyrchu'r gwersi a ddysgwyd o waith achos ac adolygiadau ffurfiol yn yr Eglwys yng Nghymru a sefydliadau ffydd eraill
- Bod yn llysgennad dros ragoriaeth mewn arferion diogelu a diwylliant
- Sicrhau bod y tîm hyfforddiant diogelu yn cynllunio ac yn darparu cyfres gynhwysfawr o fodiwlau hyfforddi sy'n cael eu diweddaru a'u hadnewyddu'n rheolaidd, yn cael eu hadolygu gan gymheiriaid, ac yn seiliedig ar waith achos.
- Sicrhau bod yr Eglwys yng Nghymru yn dysgu ac yn gwneud newidiadau o ganlyniad i adroddiadau a gynhyrchir yn allanol, gan gynnwys IICSA
- Meithrin perthynas waith gref ar draws yr Eglwys yng Nghymru a sefydliadau eraill
- Gweithio'n agos gyda'r Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol i sicrhau bod polisïau ar waith sy’n sicrhau bod arferion recriwtio mwy diogel yn cael eu gweithredu i bawb
- Gweithio gyda'r Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol i sicrhau, wrth reoli honiadau yn erbyn cyflogeion a deiliaid swyddi, bod arferion gorau ar waith wrth gymhwyso polisïau a phrosesau
- Bod yn brif swyddog sy'n cefnogi gwaith y pwyllgorau llywodraethu diogelu gan gynnwys Panel Diogelu’r Dalaith ac argymell bod diogelu'n rhan o bob agenda lywodraethu
- Gwneud trefniadau ar gyfer archwiliad allanol rheolaidd a chadarn o arferion, polisïau a gweithdrefnau gwaith achos diogelu
- Cynnal eu datblygiad proffesiynol eu hunain a gwybod am y newidiadau i reoliadau a’r datblygiadau arferion gorau diweddaraf

### Rheolwr Diogelu

<u>Cyfrifoldebau</u>

- Arwain tîm swyddogion Diogelu’r Dalaith gan sicrhau:
  bod y cyngor a roddant, y gwaith achos y maent yn ei wneud, yr adroddiadau y maent yn eu hysgrifennu a'r rhyngweithio sydd ganddynt ag asiantaethau statudol a sefydliadau ffydd eraill o ansawdd uchel ac yn cydymffurfio ag arferion gorau ac, yn achos adroddiadau ysgrifenedig, yn cydymffurfio â'r safonau a ddisgwylir ar gyfer derbyn tystiolaeth yn y llys.
  bod gwaith yn cael ei wneud yn unol â Gweithdrefnau Diogelu Cymru.
- Sicrhau bod trefniadau goruchwylio proffesiynol ar waith ar gyfer pawb sy'n gwneud gwaith achos
- Sicrhau bod gwybodaeth a gedwir gan y tîm diogelu yn cael ei storio'n ddiogel a bod systemau priodol ar waith ar gyfer rheoli gwaith achos a bod gwybodaeth yn cael ei chadw mewn modd sy’n caniatáu mynediad a chroesgyfeirio hwylus.

DRAFT

- Sicrhau bod goroeswyr camdriniaeth yn cael eu cyfeirio at y cymorth sydd ar gael
- Bod yn gyfrifol am ddatblygu'r cynnwys, a chyfathrebu polisi Diogelu'r Dalaith a'r canllawiau ategol yn effeithiol, gan sicrhau ei fod yn cael ei ddiweddaru'n rheolaidd i gynnwys gofynion deddfwriaethol ac arferion gorau newydd yn ogystal â chyngor newydd a ddatblygwyd mewn ymateb i sefyllfaoedd newydd neu gwestiynau nas rhagwelwyd.
- Cyfrannu at archwilio arferion gwaith achos a gweithredu polisïau a gweithdrefnau diogelu o fewn Esgobaethau.
- Gan weithio gyda'r Cyfarwyddwr Diogelu a hyfforddwyr Diogelu, cyfrannu at ddatblygu cyfres o ddeunydd ar gyfer hyfforddiant diogelu i'w ddarparu o fewn yr Eglwys yng Nghymru. Byddai hyn yn cynnwys ymgorffori dysgu o waith achos, archwilio, adolygu ac argymhellion mewn diwylliant o ddysgu parhaus i wella'r ymateb i ddiogelu.
- Gweithio gydag aelodau eraill o dîm Swyddfa'r Dalaith i sicrhau bod gwiriadau Datgelu a Gwahardd anffafriol yn cael eu rheoli'n effeithiol.
- Cyflawni prosiectau penodol mewn perthynas â newidiadau mewn arferion a argymhellir neu mewn cysylltiad ag ymholiadau cenedlaethol

### Swyddog Diogelu'r Dalaith

Cyfrifoldebau: -

- Ymdrin â'r holl bryderon a honiadau diogelu ar draws y Dalaith.
- Derbyn adroddiadau a chadw cofnodion priodol o bryderon/honiadau diogelu ynghylch cam-drin plant, pobl ifanc ac oedolion bregus.
- Asesu gwybodaeth a phenderfynu, ar y cyd â'r Rheolwr Diogelu, a oes risg i blant, pobl ifanc ac oedolion bregus.
- Bod yn gyfrifol gan ymgynghori â'r Rheolwr Diogelu am atgyfeirio at yr awdurdodau priodol a chysylltu â hwy a gallu ysgrifennu a chyflwyno adroddiadau ar ddeunydd achos sensitif.
- Trin gwybodaeth sensitif yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data a defnyddio egwyddorion arferion da o ran cyfrinachedd.
- Sicrhau bod pob agwedd ar Bolisïau a Gweithdrefnau Diogelu'r Eglwys yng Nghymru yn cael eu cyfleu a'u gweithredu.
- Cynorthwyo i ddarparu cymorth priodol, gwelliant parhaus, a gwybodaeth ddiogelu ar gyfer holl staff yr Eglwys yng Nghymru.
- Mynychu holl gyfarfodydd priodol y Dalaith ac, os oes angen, paratoi a chyflwyno adroddiadau.
- Cysylltu ag Esgobion ac Uwch Glerigion ar amrywiaeth o faterion diogelu a darparu cymorth, cyngor a gwybodaeth mewn perthynas â materion gwaith achos penodol a allai godi.
- Cynorthwyo'r Cyfarwyddwr Diogelu i ddatblygu'r gwasanaeth yn y dyfodol.
- Cynorthwyo a chyfrannu at adolygu a diweddaru polisïau a gweithdrefnau yn rheolaidd yn ôl yr angen.
- Bod yn hyddysg yn y ddeddfwriaeth gyfredol ddiweddaraf a'r arferion gorau o ran diogelu.

DRAFT

**Hyfforddwr Diogelu Arweiniol**

Cyfrifoldebau

- Darparu hyfforddiant diogelu rhagorol ar draws yr Eglwys yng Nghymru:
    - Priodol ar gyfer cyd-destun ac anghenion dysgwyr.
    - Yn sensitif i faterion personol y gallai hyfforddiant eu codi ar gyfer y rhai sy'n cael eu hyfforddi, gan ymateb yn briodol i unrhyw ddatgeliadau neu ofid.
    - Gwahaniaethu rhwng y lefelau cyfrifoldeb ymarferol sydd gan y dysgwyr ar gyfer diogelu.
    - Parchu dysgu a phrofiad blaenorol.
    - Gweithio gyda gwirfoddolwyr, gweithwyr a chlerigion fel y bo'n briodol, gan annog dull cydweithredol.
    - Mewn lleoliadau a chyd-destunau amrywiol ledled Cymru.
    - Cysylltu'r hyfforddiant â chenhadaeth a bywyd ehangach yr Eglwys.
- Datblygu cyfres o becynnau hyfforddi wedi'u teilwra i'r gwahanol rolau yn yr Eglwys yng Nghymru:
    - Gweithio'n agos gyda'r tîm diogelu
    - Defnyddio arferion gorau o fewn hyfforddiant diogelu ac addysg i oedolion; hyrwyddo 'diwylliant sylwgar'
    - Defnyddio technoleg dysgu ar-lein ac o bell i'r eithaf
    - Casglu a gwerthuso adborth er mwyn sicrhau gwelliant parhaus o ran cyflwyno’r pecynnau a’u cynnwys.
    - Cefnogi a lledaenu polisi diogelu'r Eglwys yng Nghymru, gan helpu pobl i ddeall sut i'w gymhwyso yn eu cyd-destun.

- Gweithredu fel aelod cefnogol o'r Tîm Hyfforddiant Diogelu sy'n cynnwys Tiwtor, Cydlynydd, Hyfforddwr Arweiniol, Hyfforddwr gan gyfrannu at ethos o gydweithio a gwelliant parhaus.
- Yn hyddysg yn y datblygiadau diweddaraf:
    - ym Mholisi Diogelu'r Eglwys yng Nghymru, diogelu arferion da a deddfwriaeth berthnasol, a sicrhau bod hyn yn cael ei adlewyrchu mewn hyfforddiant
    - mewn addysgu, addysg oedolion, a TGCh.

**Hyfforddwr Diogelu**

Cyfrifoldebau

- Darparu hyfforddiant diogelu rhagorol ar draws yr Eglwys yng Nghymru:
    - ➢ Priodol ar gyfer cyd-destun ac anghenion dysgwyr.
    - ➢ Yn sensitif i faterion personol y gallai hyfforddiant eu codi ar gyfer y rhai sy'n cael eu hyfforddi, gan ymateb yn briodol i unrhyw ddatgeliadau neu ofid.
    - ➢ Gwahaniaethu rhwng y lefelau cyfrifoldeb ymarferol sydd gan y dysgwyr ar gyfer diogelu.
    - ➢ Parchu dysgu a phrofiad blaenorol.
    - ➢ Gweithio gyda gwirfoddolwyr, gweithwyr a chlerigion fel y bo'n briodol, gan annog dull cydweithredol.
    - ➢ Mewn lleoliadau a chyd-destunau amrywiol ledled Cymru.

DRAFT

- Cysylltu'r hyfforddiant â chenhadaeth a bywyd ehangach yr Eglwys

- Mewn cydweithrediad â'r Cyfarwyddwr Diogelu a'r Hyfforddwr Diogelu Arweiniol, cyfrannu at ddatblygu cyfres o becynnau hyfforddi wedi'u teilwra i'r gwahanol rolau yn yr Eglwys yng Nghymru:
- Ymateb i'r diwylliant gwelliant parhaus o fewn yr Eglwys yng Nghymru i ddarparu cyswllt effeithiol rhwng hyfforddiant, polisïau diogelu, canllawiau a gwaith achos.
- Bod yn hyddysg yn y datblygiadau diweddaraf:
    - ym Mholisi Diogelu'r Eglwys yng Nghymru, arferion da a deddfwriaeth berthnasol ar ddiogelu, a sicrhau bod y rhain yn cael eu hadlewyrchu mewn hyfforddiant
    - mewn addysgu, addysg oedolion, a TGCh.
- Datblygu a chynnal perthynas dda gyda staff priodol yn y chwe esgobaeth

**Gweinyddwr Diogelu**

Cyfrifoldebau

- Darparu cymorth gweinyddol cyffredinol i'r Cyfarwyddwr Diogelu, y Rheolwr Diogelu a'r Hyfforddwyr Diogelu gan gynnwys:
    - Cyflawni tasgau gweinyddol sy'n ymwneud â monitro'r broses o weithredu a diweddaru polisïau a gweithdrefnau diogelu.
    - Sicrhau bod cronfeydd data gwaith achos a hyfforddiant yn parhau i fod yn gywir ac yn gyfredol, gan gwestiynu'r cronfeydd data hynny a llunio adroddiadau perthnasol, a chysylltu â'r Tîm Cyfathrebu a Thechnoleg ar ddatblygu a phoblogi cronfeydd data newydd priodol.
    - Cynorthwyo archwilwyr mewnol ac allanol i weld cofnodion perthnasol.
    - Cyfrannu at reoli cynnwys tudalennau diogelu ar wefan yr Eglwys yng Nghymru.
    - Cymryd rhan mewn cyfarfodydd adran a phrosiect a chymryd cofnodion ohonynt.

- Darparu gweinyddiaeth effeithlon i hwyluso'r ystod lawn o hyfforddiant diogelu gan gynnwys drwy:
    - Ymateb i ymholiadau hyfforddi, rheoli'r broses archebu ar gyfer hyfforddiant ac estyn gwahoddiadau
    - Sicrhau bod digwyddiadau ac adnoddau'n cael eu hyrwyddo mewn modd amserol a gweithio gydag eraill i godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd diogelu hyfforddiant.
    - Sicrhau bod yr holl gofnodion yn cael eu diweddaru, a'u storio a'u rhannu'n briodol.
    - Cyrchu ac archebu lleoliadau priodol ar gyfer darparu hyfforddiant wyneb yn wyneb.
    - Darparu cymorth gweinyddol ar gyfer hyfforddiant ac adnoddau ar y we, gan gynnwys gweinyddu cyfarfodydd ar-lein drwy *Zoom/Microsoft Teams*.
    - Casglu, coladu ac adrodd ar adborth o'r holl ddigwyddiadau hyfforddi a chyfrannu at ddadansoddi anghenion hyfforddi parhaus ar draws yr Eglwys.

    - Cyfrannu at gynhyrchu deunyddiau ac adnoddau o ansawdd uchel i gefnogi dysgu ar-lein ac wyneb yn wyneb.

- Cymryd rhan mewn cyfarfodydd o bwyllgorau a grwpiau diogelu perthnasol (gan gynnwys y Panel Diogelu, y Pwyllgor Diogelu, a'r grŵp 'brysbennu' staff) drwy:
    - Baratoi a dosbarthu agendâu a phapurau.
    - Cyrchu ac archebu lleoliadau ar gyfer cyfarfodydd wyneb yn wyneb a chydlynu cyfarfodydd drwy fideo-gynadledda.
    - Rheoli a chefnogi presenoldeb a chyfranogiad mewn cyfarfodydd wyneb yn wyneb a rhithwir.
    - Dosbarthu a chymryd cofnodion cyfarfodydd mewn ymgynghoriad â chadeirydd y cyfarfod.
    - Cysylltu â chydweithwyr i sicrhau bod camau gweithredu sy'n deillio o'r cyfarfodydd hyn yn cael eu dilyn

**Diogelu - Ymgysylltu a Sicrhau**

- ymgysylltu â chlerigion, lleygion, a staff cyflogedig ledled yr Eglwys yng Nghymru i hyrwyddo arferion gorau diogelu, dealltwriaeth o bolisïau a gweithdrefnau, gwybodaeth ac addysg ar gyfer rolau, cyfrifoldebau a gofynion diogelu
- cydlynu gweithgarwch archwilio diogelu rheolaidd o fewn y dalaith, yr esgobaeth a'r meysydd gweinidogaeth ar y cyd â'r Cyfarwyddwr Diogelu. Byddai hyn yn cynnwys
    - bod cofnodion clerigion, gweinidogion lleyg trwyddedig, lleygion a gweithwyr yn cael eu cadw ar lefel berthnasol ardal y dalaith, yr esgobaeth neu'r weinidogaeth i alluogi ymateb prydlon i ymholiadau ac i alluogi olrhain cydymffurfiaeth recriwtio mwy diogel, a hyfforddiant diogelu
    - bod ffeiliau personél, gan gynnwys ffeiliau clerigion, yn cael eu cadw i gofnodi gwybodaeth mewn perthynas â gwiriadau cofnodion troseddol diffygiol a/neu bryderon diogelu, ar gyngor swyddog Diogelu'r Dalaith
    - gweithredu cytundebau diogelu i fonitro a chyfrannu at reoli risg, gan gynnwys trosglwyddiad cyffredinol o reoli risg, a diogelu ar gyfer clerigion newydd
    - bod "asesiad risg gweithgaredd" yn cael ei gwblhau a'i adolygu'n rheolaidd ar gyfer pob gweithgaredd, sy'n gysylltiedig â phlant neu oedolion sy'n wynebu risg, ac sy'n cael ei gynnal yn enw'r Eglwys
    - rhaid i unrhyw gytundeb llogi gydag unrhyw berson/corff sy'n dymuno llogi safle eglwysig gynnwys darpariaeth lle mae'r person/corff sy'n llogi'r safle yn cytuno i gydymffurfio â'r canllawiau diogelu perthnasol.
- ystyried gwybodaeth a themâu sy'n codi o brosesau sicrhau ansawdd e.e., adolygiadau o wersi a ddysgwyd, archwiliadau annibynnol, ac archwiliadau ffeiliau er mwyn gwneud argymhellion ar gyfer gwella trefniadau diogelu.

DS - Byddai canlyniadau gweithgarwch ymgysylltu ac archwilio yn cael eu rhannu, yn ôl y gofyn, ag arweinwyr, gan gynnwys archddiaconiaid ac arweinwyr a chynghorau ardaloedd gweinidogaeth i gynorthwyo eu rôl o ddarparu arweiniad a chyfeiriad wrth hyrwyddo eglwys ddiogel o fewn eu hardaloedd daearyddol priodol

DRAFT

**Atodiad B – Cyfrifoldebau Diogelu Esgobaethol**

**Esgob Arweiniol Diogelu - Cyfrifoldebau Allweddol:**

- darparu arweiniad a chyfeiriad y dalaith wrth hyrwyddo eglwys ddiogel
- cyfathrebu a hyrwyddo negeseuon diogelu allweddol o fewn a thu hwnt i'r Eglwys yng Nghymru, mewn ymgynghoriad â Thîm Diogelu'r Dalaith a'r Pwyllgor Diogelu
- ymgysylltu â Mainc yr Esgobion, y Corff Llywodraethol a'r Pwyllgor Diogelu wrth gefnogi strategaeth, polisïau, canllawiau a hyfforddiant diogelu
- cymryd rhan fel aelod ex officio o'r Pwyllgor Diogelu
- ymgysylltu â'r Cyfarwyddwr Diogelu mewn datblygiadau polisi ac ymarfer allweddol
- cynrychioli'r Eglwys yng Nghymru mewn gweithgarwch diogelu eciwmenaidd perthnasol
- cefnogi cyfranogiad yr Eglwys yng Nghymru yng Nghomisiwn Eglwysi Diogel y Cymundeb Anglicanaidd

***Gall y cyfrifoldebau canlynol gael eu trin gan Bwyllgor Diogelu gyda chyfranogiad yr Esgob Arweiniol ar gyfer diogelu mewn cyfarfodydd pwyllgor –***

- cefnogi gwaith Panel Dirnad y Dalaith i sicrhau bod y broses ddirnadaeth yn gyson ag egwyddorion recriwtio mwy diogel
- cefnogi ac annog perthynas waith agos rhwng y rhai sy'n gyfrifol am y Weinidogaeth Iachau ac Ymwared a Thîm Diogelu'r Dalaith
- cefnogi rôl Athrofa Padarn Sant wrth hyrwyddo diogelu drwy ddarparu addysg ddiwinyddol

**Esgob Esgobaethol - Prif gyfrifoldebau:**

- mewn ymgynghoriad â'r Esgob Arweiniol dros Ddiogelu, cyfleu a hyrwyddo negeseuon diogelu allweddol o fewn a thu hwnt i'r Eglwys yng Nghymru
- darparu arweiniad a chyfeiriad esgobaethol wrth hyrwyddo eglwys ddiogel. Drwy arweinyddiaeth a chyfathrebu, byddai hyn yn cynnwys pennu disgwyliad bod:
    - Polisi Diogelu'r Dalaith a'r canllawiau cysylltiedig wedi'u mabwysiadu ledled yr esgobaeth
    - strwythur ar waith i fonitro a chefnogi trefniadau diogelu o fewn yr esgobaeth, gan gynnwys ar lefel Ardal Weinidogaeth/Ardal Genhadaeth ac eglwysi
    - yr esgobaeth yn darparu trefniadau i gefnogi goroeswyr camdriniaeth
    - trefniadau esgobaethol yn gyson ag egwyddorion recriwtio mwy diogel
    - pob clerig (gan gynnwys y rhai â PTO), gweinidogion lleyg trwyddedig a swyddogion eglwysig eraill a lleygion sydd â chysylltiad â phlant a/neu oedolion sy'n wynebu risg yn cymryd rhan mewn hyfforddiant diogelu rheolaidd
    - diogelu yn eitem sefydlog ar yr agenda yng Nghyfarfodydd Uwch Staff yr Esgob a bod y swyddogion Diogelu'r Dalaith yn gallu mynychu cyfarfodydd, yn ôl y gofyn.

DRAFT

- annog a chefnogi rôl diogelu Archddiaconiaid, gan gynnwys eu rôl o ran rheoli pryderon diogelu difrifol mewn perthynas â chlerigion, swyddogion eglwysig ac eraill mewn swyddi o ymddiriedaeth; a monitro fel rhan o gyfrifoldebau ac ymweliadau'r Archddiaconiaid.
- pan fo angen, cefnogi'r broses o ddatrys materion diogelu a allai godi drwy waith achos diogelu, adolygu gwersi a ddysgwyd, archwilio neu ymchwilio i gwynion. Byddai hyn yn cynnwys gweithredu argymhellion gan dîm Diogelu'r Dalaith a'r panel diogelu heb oedi diangen
- cyflawni ei ddyletswyddau cyfreithiol gan roi sylw dyledus i ddiogelu wrth awdurdodi gweinidogion ac arfer disgyblaeth. Byddai hyn yn cynnwys:
  - pan fo galw am hynny, cyfarwyddo offeiriad neu ddiacon sydd wedi ei awdurdodi i weinidogaethu yn yr esgobaeth i fod yn destun asesiad risg
  - ystyried atal unrhyw offeiriad neu ddiacon sy'n dal unrhyw fraint yn yr esgobaeth os, yn ôl cyngor a ddarperir gan swyddog Diogelu'r Dalaith, yw'r unigolyn perthnasol yn peri risg diogelu
  - yn achos warden eglwys, aelod o Gyngor yr Adran Weinidogaeth/Genhadaeth, ysgrifennydd neu drysorydd Cyngor yr Ardal Weinidogaeth/Genhadaeth, aelod o bwyllgor eglwys, darllenydd trwyddedig neu weithiwr lleyg, ystyried eu hatal dros dro os yw'r unigolyn dan sylw wedi cael ei arestio ar amheuaeth o gyflawni trosedd a grybwyllir yn Atodlen 1 o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 1933 (neu ei gyhuddo heb ei arestio) neu os yw'r esgob wedi ei fodloni bod unigolyn yn gyfystyr â risg diogelu yn ôl y cyngor a ddarperir gan swyddog Diogelu'r Dalaith.

### Rôl Ganolog yr Esgobaeth o ran Diogelu

Mae'r rôl hon yn addas ar gyfer aelod o staff uwch yr Esgob neu staff uwch Ysgrifennydd yr Esgobaeth ond mae angen iddo gael cefnogaeth ysgrifennydd yr Esgob ac ysgrifennydd yr Esgobaeth a'r awdurdod i weithredu ar draws yr Esgobaeth.

### Prif Gyfrifoldebau:

- cynrychioli'r esgobaeth i ddarparu diweddariadau perthnasol yn y Pwyllgor Diogelu
- cynghori'r Cyfarwyddwr Diogelu os nad yw'r tîm Diogelu'r Dalaith neu gorff eglwysig arall yn ymdrin â mater diogelu yn briodol.
- cadw cofnod canolog esgobaethol o glerigion a gweinidogion lleyg trwyddedig fel y gellir ymateb yn brydlon i ymholiadau ac y gellir olrhain cydymffurfiaeth, adnewyddiadau a hyfforddiant diogelu'r DBS

*DS - Bwrdd Cyllid yr Esgobaeth - Darparu yswiriant priodol i gwmpasu'r holl weithgareddau a gynhelir yn enw'r esgobaeth sy'n cynnwys plant ac oedolion sy'n wynebu risg.*

### Archddiaconiaid - Cyfrifoldebau allweddol:

- ar y cyd â'r Esgob esgobaethol, cyfleu a hyrwyddo negeseuon diogelu allweddol ar draws yr esgobaeth

- darparu arweiniad a chyfeiriad wrth hyrwyddo eglwys ddiogel o fewn Ardaloedd Gweinidogaeth / Ardaloedd Cenhadaeth. Trwy arwain a chyhoeddi, byddai hyn yn cynnwys:
    - glynu wrth Bolisi Diogelu'r Dalaith a'r canllawiau cysylltiedig gan bob rhan o'r esgobaeth.
    - holl rolau cyflogedig a gwirfoddol o fewn yr esgobaeth i gydymffurfio ag arferion recriwtio mwy diogel yr Eglwys yng Nghymru a'r disgwyliadau hyfforddiant diogelu.
    - arferion diogel mewn perthynas â holl weithgareddau a digwyddiadau'r Esgobaeth, gan gynnwys drwy ddefnyddio asesiadau risg.
    - trosglwyddo diogelu effeithiol pan fo offeiriad â gofal yn newid, ar y cyd â Chyngor yr Ardal Weinidogaeth / Genhadaeth.
- gweithio'n agos gyda thîm Diogelu'r Dalaith wrth ymdrin â sefyllfaoedd diogelu difrifol sy'n ymwneud â honiadau yn erbyn clerigion a swyddogion eglwysi.
- yn ystod eu hymweliad blynyddol gan sicrhau bod ardaloedd gweinidogaeth (Cyngor yr Ardal Weinidogaeth/Genhadaeth a chlerigion) yn glynu wrth arferion diogelu da.

## Cyngor yr Ardal Weinidogaeth / Ardal Genhadaeth

- hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth o ddiogelu i bawb yng nghymuned yr eglwys.
- mabwysiadu Polisi Diogelu a chanllawiau ymarfer yr Eglwys yng Nghymru. Byddai hyn yn cynnwys arddangos datganiad ffurfiol o fabwysiadu'r datganiad polisi Diogelu mewn eglwysi. Dylid llofnodi hyn ar ran Cyngor yr Ardal Weinidogaeth/Genhadaeth;
- creu amgylchedd, sy'n groesawgar ac yn barchus ac sy'n galluogi i bryderon am ddiogelu gael eu codi ac y gellir ymateb iddynt yn agored, yn brydlon ac yn gyson.
- penodi swyddog(ion) diogelu dynodedig â phrofiad priodol i weithio gydag Arweinydd yr Ardal Weinidogaeth. Dylai'r swyddog fod yn un o'r lleygion. Ni all fod yn glerig, nac yn gysylltiedig â chlerig.
- rhoi arweiniad wrth hyrwyddo eglwys ddiogel o fewn eu Hardaloedd Gweinidogaeth / Ardaloedd Cenhadaeth. Byddai hyn yn cynnwys:
    - cynnal cofnodion ardal weinidogaeth o leygion sydd â rôl gyda phlant a/neu oedolion sy'n wynebu risg i alluogi ymateb prydlon i ymholiadau a galluogi olrhain cydymffurfiaeth, adnewyddiadau a hyfforddiant diogelu'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd
    - trosglwyddo gwybodaeth ddiogelu yn effeithiol ar newid cadeirydd Cyngor yr Ardal Weinidogaeth/Genhadaeth, arweinydd ardal weinidogaeth neu offeiriaid â gofal
    - rhaid i unrhyw gytundeb llogi gydag unrhyw unigolyn/corff sy'n dymuno llogi safle eglwysig gynnwys darpariaeth lle mae'r person/corff sy'n llogi'r safle yn cytuno i gydymffurfio â'r canllawiau diogelu perthnasol.
- cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth diogelu data, yn enwedig o ran storio gwybodaeth am unrhyw weithwyr cyflogedig a di-dâl ac unrhyw gofnodion diogel.

## Arweinwyr Ardaloedd Gweinidogaeth (gyda chefnogaeth clerigwyr eraill ac Wardeiniaid Eglwysi)

DRAFT

- darparu arweiniad a chyfeiriad wrth hyrwyddo eglwys ddiogel o fewn eu Hardaloedd Gweinidogaeth / Ardaloedd Cenhadaeth. Trwy arweinyddiaeth a chyfathrebu, byddai hyn yn cynnwys
  - y dilynir y canllawiau Recriwtio Mwy Diogel wrth recriwtio holl swyddogion yr eglwys sy'n gweithio gyda phlant, pobl ifanc a/neu oedolion sy'n wynebu risg; sicrhau eu bod yn ymwybodol o ganllawiau diogelu ac yn cydymffurfio â hwy (yn cynnwys polisïau a chanllawiau ymarfer); dylent fynychu hyfforddiant diogelu o leiaf bob tair blynedd.
  - cynnal "asesiad risg gweithgaredd" a'i adolygu'n rheolaidd ar gyfer pob gweithgaredd sy'n cael ei redeg yn enw'r Eglwys sy'n gysylltiedig â naill ai plant neu oedolion sy'n wynebu risg.
  - bod troseddwyr hysbys neu eraill a allai fod yn risg i blant a/neu oedolion sy'n agored i niwed yn cael eu rheoli a'u monitro'n effeithiol mewn ymgynghoriad â swyddog Diogelu'r Dalaith.
  - trosglwyddo gwybodaeth ddiogelu yn effeithiol os yw offeiriad â gofal neu warden eglwys yn newid
- ymdrin yn brydlon â honiadau diogelu neu amheuon o gam-drin yn unol â'r canllawiau polisi ac ymarfer perthnasol gan ymgynghori â thîm Diogelu'r Dalaith.
- cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth diogelu data, yn enwedig o ran storio gwybodaeth am unrhyw weithwyr cyflogedig a di-dâl ac unrhyw gofnodion diogelu.

### Rôl Swyddog Diogelu Ardal Weinidogaeth / Genhadaeth (MASO)

Mae'r rôl hon yn addas ar gyfer aelod lleyg sydd â sgiliau trefnu a bugeilio da, ac sydd â dealltwriaeth o gyfrinachedd ac, yn ddelfrydol sy'n meddu ar brofiad o weithio gyda phlant a/neu oedolion sy'n wynebu risg, yng nghyd-destun diogelu os oes modd. Gall y rôl a'r cyfrifoldebau a restrir gael eu cyflawni naill ai gan unigolyn sy'n cwmpasu ardal weinidogaeth / cenhadaeth gyfan, neu gan dîm o swyddogion, a ddirprwyir i ardal ddaearyddol, plwyfi unigol, neu eglwysi mawr. Mae'r rhestr o gyfrifoldebau hefyd yn rhai y mae angen mynd i'r afael â hwy yn yr eglwysi cadeiriol.

- gweithio'n agos gydag arweinydd ardal weinidogaeth a bod yn bwynt cyswllt i gynghori yn yr ardal ar yr holl faterion diogelu sy'n ymwneud â phlant ac oedolion sy'n wynebu risg. Byddai hyn yn cynnwys amheuon/pryderon diogelu, recriwtio mwy diogel ac asesu a rheoli risg ar faterion diogelu.
- derbyn, gydag arweinydd ardal weinidogaeth, unrhyw bryderon am blant neu oedolion yn yr ardal a sicrhau y ceir y cyngor priodol, ac y gwneir yr atgyfeiriadau priodol.
- cadw cysylltiad rheolaidd â Swyddog Diogelu'r Dalaith yr esgobaeth
- ar y cyd ag arweinydd ardal weinidogaeth, ynghylch pob mater sy'n ymwneud â phryderon a honiadau o gam-drin yn erbyn clerigion a swyddogion eglwysi, hysbysu swyddog Diogelu'r Dalaith a fydd yn cysylltu â'r asiantaethau statudol, yn ôl y gofyn. Dylid codi pryderon am arweinydd ardal weinidogaeth yn uniongyrchol gyda Swyddog Diogelu'r Dalaith; DS – Dylid gwneud atgyfeiriadau diogelu brys, y tu allan i oriau swyddfa yn uniongyrchol i awdurdodau statudol, gan roi gwybod i'r Swyddog Diogelu'r Dalaith am yr atgyfeiriad brys

- sicrhau bod Swyddog Diogelu'r Dalaith yn cael ei hysbysu am unrhyw gyn-droseddwyr sydd â throseddau yn erbyn plant neu oedolion agored i niwed y gwyddys eu bod yng nghymuned yr eglwys. Hefyd, monitro a chyfrannu at reoli risg drwy weithredu Cytundebau Diogelu yn effeithiol, gan gynnwys trosglwyddiad cynhwysfawr o reoli risg a diogelu ar gyfer clerigion newydd
- hyrwyddo arferion diogel ym mhob gweithgaredd a gwneud unrhyw argymhellion sy'n ofynnol gan ystyried trefniadau penodol ardal weinidogaeth/genhadaeth.
- hyrwyddo cydymffurfiaeth ag arferion recriwtio mwy diogel. Byddai hyn yn cynnwys cefnogi proses o fewn ardal weinidogaeth ar gyfer gwiriadau DBS, gwiriadau adnabod perthnasol a dilysu gwybodaeth a ddarparwyd gan ymgeiswyr
- helpu i gwblhau hunanasesiadau ac archwiliadau diogelu yn ôl y gofyn.
- gall y cyfrifoldeb canlynol gael ei gyflawni gan swyddog diogelu ardal weinidogaeth / genhadaeth –

  Bod yn rhywun y bydd plant, pobl ifanc ac oedolion sy'n wynebu risg yn gwybod y gallant siarad ag ef/hi am unrhyw broblemau, os ydynt am wneud.

DRAFT